



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwestiynau Cyffredin

Mesurau cyflawniadad

Mesurau Cyson Ôl-16

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cyfres newydd o fesurau perfformiad ar gyfer addysg bellach (AB) a chweched dosbarth ysgolion, sy'n rhoi darlun mwy cyflawn o ddeilliannau dysgwyr yn y sector ôl-16. Y mesurau newydd yw cyflawniad dysgwyr, gwerth ychwanegol a chyrchfannau ôl-16.

Mae'r Cwestiynau Cyffredin hyn yn gymorth i golegau AB, chweched dosbarth ysgolion, awdurdodau lleol (ALLau) a chonsortia i ddeall y fethodoleg wrth wraidd y mesurau cyflawniad newydd, a'u helpu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw faterion data.

Byddwn yn ychwanegu at y Cwestiynau Cyffredin wrth i ni barhau â'n trafodaethau gyda'r sector ar y mesurau newydd.

Manylion Cyswllt

Y Gangen Ansawdd a Rheoli Data Ôl-16

E-bost: post16quality@llyw.cymru

Rhif Cwestiynau Cyffredin	
A1	Sut bydd y mesurau cyflawniad yn cael eu defnyddio? Bydd y mesurau cyflawniad yn rhan o gyfres o fesurau (h.y. cyflawniad dysgwyr, gwerth ychwanegol a chyrchfannau ôl-16) i roi darlun mwy cyflawn o ddeilliannau dysgwyr. Defnyddir mesurau perfformiad mewn nifer o ffyrdd; maent yn bwysig wrth werthuso effeithiolrwydd dysgu; maent yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddir gan Estyn (Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru) yn ystod gwaith arolygu neu arolygu thematig; maent yn helpu darparwyr dysgu i asesu eu perfformiad eu hunain a nodi lle y gallai fod angen gwelliannau; ac maent yn helpu'r cyhoedd, yn enwedig dysgwyr, eu rhieni a'u gofalwyr, i wneud penderfyniadau, ochr yn ochr â ffactorau eraill, am y dewis gorau o ddarparwr dysgu a chwrw ac ymgysylltu â darparwyr ar eu perfformiad. Nid yw data perfformiad yn ddiben ynddo'i hun, ond yn fan cychwyn a all helpu i nodi darparwyr, rhaglenni, adrannau neu grwpiau o ddysgwyr sy'n perfformio i safonau uchel; neu'r rhai lle mae angen cymorth i sicrhau gwelliant. Byddwn yn gweithio gyda'r sector AB a'r consortia addysg i sicrhau bod y mesurau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i godi safonau.

Rhif	Cwestiynau Cyffredin
A2	Yn y mesurau addysg gyffredinol a rhaglenni galwedigaethol, pam mae deilliannau'n cael eu dangos yn ôl y grwpiau oedran '16' ac '17+'? Mae'n caniatáu mwy o gymaroldeb rhwng y carfannau sy'n cael eu mesur mewn lleoliadau ysgol ac AB. Cyfrifir grŵp oedran dysgwyr o'u hoedran ar 31 Awst cyn dechrau eu rhaglen ddysgu.
A3	Yw dysgwyr rhan-amser wedi'u cynnwys yn y mesurau? Mae dysgu a wneir gan ddysgwyr rhan-amser wedi'i gynnwys yn y mesur gweithgaredd dysgu. Mae mesurau rhaglen yn cynnwys dysgwyr ar raglenni llawn amser yn unig (felly er enghraifft, mae dysgwyr sy'n oedolion sy'n ymgymryd â dosbarth Safon Uwch gyda'r nos yn cael eu heithrio o fesurau rhaglen). Mae hyn oherwydd bod y mesurau'n seiliedig ar raglenni dysgu cymaradwy ac ni ellir cymhwyso hyn yn gyson at ddysgwyr rhan-amser.
A4	Pa gymwysterau cyfwerth ydych chi wedi'u cynnwys yn y rhaglenni addysg gyffredinol lefel 3? Rydym yn cynnwys cymwysterau cyfwerth â Safon Uwch/Lefel AS (cymwysterau o faint a gwerth pwyntiau tebyg megis Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch a BTEC). Pennir maint a gwerth pwyntiau cymwysterau gan ddefnyddio cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QIW).
A5	Mae gennym ni ddysgwyr sy'n cymryd pedwar lefel AS neu gyfwerth ond yn gollwng un cyn dechrau lefelau A2. Sut mae hyn yn effeithio ar ein data? Bydd unrhyw ddysgwr sydd wedi'i gofrestru ar <u>dair neu fwy</u> o raglenni Safon Uwch (neu gyfwerth) yn y garfan ar gyfer y mesur cyflawniad addysg gyffredinol. Felly, os yw dysgwr yn newid o dair lefel AS ynghyd â Bagloriaeth Cymru i ddwy lefel A2 ynghyd â Bagloriaeth Cymru yn y flwyddyn ganlynol, ni fydd y gyfradd gadw yn cael ei heffeithio oherwydd bod y dysgwr wedi dychwelyd ym mlwyddyn 2. Mae'r mesur cyflawniad yn edrych ar ganran y garfan hon sy'n ennill <u>tair Safon Uwch neu fwy</u> neu gyfwerth (cyfrifir y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch fel cyfwerth ag A2).

Rhif	Cwestiynau Cyffredin
A6	Mae dysgwyr sy'n gadael darparwr gwahanol ar ôl cyflawni lefel AS yn dod i'n hysgol/coleg, a yw'r dysgwyr hyn yn cael eu cynnwys yn ein data lefel A2? Na, nid yw'r dysgwyr hyn yn cael eu cynnwys yn y mesur rhaglenni. Wrth gwrs, mae'n fwy cymhleth olrhain y dysgwyr hyn a neilltuo eu deilliannau i ddarparwyr. Rydym yn rhagweld y bydd ein set ddata addysg gyfatebol newydd yn nodi lle mae dysgwyr wedi cwblhau lefelau AS gydag un darparwr ac wedi cyflawni lefelau A2 gyda darparwr gwahanol. Unwaith y cawn y dadansoddiad hwn byddwn yn cynnal ymgynghoriad anffurfiol ar sut y dylid cynnwys y dysgwyr hyn yn y mesurau. Bydd Safonau Uwch a gyflawnir gan y dysgwyr hyn yn cael eu cynnwys yn y mesur gweithgaredd dysgu.
A7	Pa ddysgwyr sy'n cael eu cynnwys yn y gyfradd gadael yn gynnar? Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddysgwr a adawodd y dysgu o fewn wyth wythnos gyntaf i ddechrau ei raglen; mae hyn er mwyn ystyried y cyfnod asesu cychwynnol. Caiff dysgwyr sy'n gadael yn gynnar eu heithrio o'r holl gyfrifiadau.
A8	Mae gennym ddysgwyr sy'n symud i raglen ddysgu wahanol ar ôl yr wyth wythnos gyntaf, a yw'r dysgwyr hyn yn cael eu heithrio o'r mesurau rhaglen? Ni chaiff dysgwyr sy'n gadael ar ôl wyth wythnos eu heithrio gan fod y mesur rhaglen yn darparu deilliannau ar gwblhau a chadw dysgwyr yn seiliedig ar eu nodau dysgu gwreiddiol ar ddechrau eu cwrs.
A9	Pa ffynonellau data sydd wedi'u defnyddio ar gyfer data dyfarniadau? Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio data o wahanol systemau i fesur deilliannau cymwysterau. Mae sefydliadau AB yn cyflwyno data dyfarniadau i Lywodraeth Cymru drwy Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ar sail dreigl drwy gydol y flwyddyn, gyda rhewiadau ystadegol rheolaidd. Ar gyfer ysgolion, mae contract ar waith ar gyfer casglu a chydweddu data lefel disgyblion ar gofrestrïadau arholiadau cyhoeddus a chyflawniadau yng Nghymru. Cesglir y data gan oddeutu 15-20 o brif sefydliadau dyfarnu, yn dibynnu ar ba sefydliadau a ddefnyddir gan ysgolion yng Nghymru. I gyfrifo'r mesurau cyflawniad newydd, caiff hyn ei gydweddu â'r casgliad ôl-16 y mae ysgolion yn ei gyflwyno ar gyfer dysgwyr, rhaglenni a gweithgareddau chweched dosbarth.

Rhif	Cwestiynau Cyffredin
A10	Beth sy'n digwydd os yw dysgwr yn ailsefyll arholiad ac yn cael gradd uwch yn sgil hynny? Caiff arholiad ei ddiystyru pan fydd dysgwr yn ennill gradd uwch neu gymhwyster lefel uwch (gyda'r un cod diystyru (cyfeiriwch at gronfa ddata Cymwysterau Cymru (QiW) ar gyfer y codau diystyru). Golyga hyn mai'r radd orau a'r cymhwyster uchaf ar gyfer pwnc fydd yn cael ei gyfrif tuag at y mesurau perfformiad. Os yw cymhwyster yn cael ei ddiystyru yna nid yw'n cyfrif tuag at y mesurau.
A11	Mae gennym bartneriaeth gyda darparwr arall sy'n cyflwyno dysgu ar ein rhan, i ble y byddai'r deiliant yn cael ei briodoli? Mae cydnabyddiaeth yn cael ei rhoi i'r sefydliad cartref lle mae'r dysgwr wedi ymrestru ac nid y sefydliad a gyflwynodd y dysgu. Mae hyn yn unol â'r dull a ddefnyddir ar gyfer data arall a gyhoeddir.
A12	Sut bydd dysgwyr sy'n ail-wneud eu blwyddyn AS yn cael eu trin? Y tro cyntaf y byddant yn ymgymryd â'r flwyddyn AS byddant yn cael eu dangos fel rhai nad ydynt yn aros ar gyfer A2, byddant yn cael eu cynnwys eto ar gyfer yr ail flwyddyn AS a bydd p'un a ydynt yn dangos eu bod yn aros yn dibynnu ar a fyddant yn symud ymlaen i A2 wedyn.
A13	Sut bydd dysgwyr sy'n ailwneud eu blwyddyn A2 yn cael eu trin? Bydd y dysgwr yn cael ei gynnwys yn y mesur rhaglen am y flwyddyn gyntaf iddo wneud A2 ond nid am y flwyddyn y mae'n ei ailwneud. Bydd y mesur gweithgarwch dysgu yn cynnwys y deilliannau gradd ar gyfer y naillflwyddyn a'r llall.
A14	Os yw dysgwr yn cwblhau ac yn cyflawni, er enghraifft, Safon Uwch Mathemateg Pellach wrth wneud AS (neu gyfwerth), yna'n mynd ymlaen i gyflawni dau A2 arall yn y flwyddyn ganlynol, sut y caiff hyn ei gyfrif ym mesur gradd y rhaglen? Mae'r trothwy yn edrych ar bopeth a gyflawnir gan y dysgwr dros ddwy flynedd y rhaglen, felly byddai'n cyfrif fel cyflawni 3 Safon Uwch.
A15	Pam nad yw rhaglenni galwedigaethol sy'n cael eu darparu mewn chweched dosbarth ysgolion yn cael eu cynnwys yn y tablau data? Nid yw tablau data ar gyfer rhaglenni galwedigaethol wedi'u cynnwys ar gyfer chweched dosbarth ysgolion ar hyn o bryd, oherwydd materion yn ymwneud ag ansawdd a chyflawnrwydd y data. Mae'r mesur hwn yn gofyn am god cymhwyster newydd sy'n cael ei gasglu am y tro cyntaf gan ysgolion yn 2017/18. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion ar ein dull arfaethedig o fesur cyflawniad rhaglenni galwedigaethol i wella ansawdd data.

Rhif	Cwestiynau Cyffredin
A16	Pam nad oes deilliannau gradd yn cael e cynnwys ar gyfer dysgwyr sydd wedi cwblhau rhaglenni galwedigaethol? Roeddem wedi ystyried cyflwyno mesur ar gyfer rhaglenni galwedigaethol yn seiliedig ar y radd gyfartalog y mae dysgwr yn ei chyflawni, ond byddai hyn wedi bod yn rhy gymhleth oherwydd amrywiaeth y dirwedd cymwysterau galwedigaethol, o gymharu â Safonau Uwch lle mae wedi bod yn gymharol syml datblygu 'trothwy' mesur deilliannau ar lefel rhaglen. Ar ôl edrych ar opsiynau, rydym wedi penderfynu y byddai deilliannau gradd ar lefel cwrs yn fwy gwerthfawr ac mae hyn yn rhan o'n gwaith wrth ddatblygu'r systemau ar-lein i'w defnyddio gan y cyhoedd, ac at ddibenion meincnodi ar gyfer darparwyr.
A17	Sut bydd dysgwyr sydd wedi ymrestru ar raglenni galwedigaethol yn cael eu trin os ydynt yn parhau â'r un rhaglen yn y flwyddyn academaidd nesaf? Bydd y dysgwyr hyn yn cael eu cynnwys yn y garfan am yr ail flwyddyn yn unig (ni fyddant yn cael eu cynnwys yn y garfan ar gyfer eu blwyddyn gyntaf). Er enghraifft, byddai dysgwyr a ddechreuodd yn 2016/17 ac a barhaodd yr un rhaglen yn 2017/18 yn cael eu heithrio o dablau data 2016/17 ond yn cael eu cynnwys yn nhablau data 2017/18.
A18	A yw'r holl weithgareddau dysgu wedi'u cynnwys yn y mesur gweithgaredd dysgu Safon Uwch? Na, y gweithgareddau dysgu a gynhwysir yma yw'r rhai lle mae dysgwyr wedi sefyll arholiad/asesiad. Nid yw'r dysgwyr hynny nad ydynt wedi rhoi cynnig ar neu sydd wedi tynnu'n ôl o'r arholiad neu'r asesiad wedi'u cynnwys. Mae hyn yn golygu nad oes modd cymharu ffigurau'r gweithgaredd dysgu â mesurau'r rhaglen yn uniongyrchol, gan fod yr olaf yn cynnwys pob dysgwr yn hytrach na dim ond y rhai a roddodd gynnig ar asesiad.